# Cam 5: Cynnal ymchwil marchnata

## Amcanion dysgu

- Dylunio a chynnal arolwg
- Cyflwyno data mewn siart bar

## Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, cyflwynir y plant i'r syniad o ymchwil i'r farchnad fel cyd-destun gafaelgar ac ystyrlon ar gyfer dysgu Mathemateg. Trwy hyn, maent yn dysgu sut i ddylunio arolwg syml i ddeall hoffterau eu darpar gwsmeriaid ac yn llunio siart bar i arddangos eu canfyddiadau. Yna maen nhw'n gweithio fel tîm i ddod i benderfyniad terfynol ynghylch â pha gynnyrch bwyd y dylai eu busnes ei wneud.

## Defnyddiau sydd eu hangen

- Papur sgwâr / graff neu dempled siart bar
- Templed siart cyfrif

## Nodiadau cyflwyno

| | |
|---|---|
| Sleid 2: Cyflwyniad i ymchwil marchnata | • Arddangoswch y sleidiau 'PowerPoint' i ddefnyddio cwestiynu i gyflwyno ymchwil marchnata a sut y gallwn ei ddefnyddio i'n helpu i benderfynu pa flasau ychwanegol y dylem eu hychwanegu at ein tartenni neu ddiodydd brecwast.<br>• Esboniwch ein bod ni'n mynd i gynnal arolwg a chofnodi ein canlyniadau gan ddefnyddio siart cyfrif. I wneud hyn, rydym yn syml yn gofyn i lawer o bobl yr ydym am iddynt brynu ein cynnyrch pa rai o'n syniadau blas sy'n well ganddynt. Trwy ofyn i'n cwsmeriaid beth fyddai orau ganddyn nhw, gallwn ni wneud cynnyrch y maen nhw'n fwy tebygol o'i brynu a bod yn hapus ag ef.<br>• I arddangos ein canlyniadau, byddwn yn dysgu popeth am siartiau bar. |
| Sleid 3: Mathau o gwestiynau | • Esboniwch fod angen i ni ofyn cwestiwn amlddewis caeedig ar gyfer yr arolwg hwn. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cynnig ystod fach o opsiynau blas tartenni ac yn gofyn i gyfranogwyr ddewis yr opsiwn yr hoffent ei gael fwyaf. Bydd hyn yn dweud wrthym a fydd pobl eisiau prynu ein cynnyrch ai peidio. |
| Sleid 4: Mathemateg gydag ystyr | • Gan ddefnyddio'r blasau y gwnaethon nhw benderfynu arnyn nhw yn y wers ddiwethaf, gofynnwch i grwpiau busnes ysgrifennu eu cwestiwn (cwestiynau) ymchwil e.e. beth yw'r blas tarten mwyaf poblogaidd ym Mlwyddyn 4 / CA2 / ein hysgol?<br>• Efallai yr hoffech chi ymestyn y plant i ofyn ail gwestiwn am y ffactorau a fyddai'n effeithio ar eu dewis cynnyrch e.e. pris, pecynnu lliwgar, wedi'i wneud gan ddefnyddio cynnyrch lleol. |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

| | |
|---|---|
| Sleid 5: Siartiau tali | • Dylai'r plant lunio siart tali i gofnodi eu canfyddiadau cyn casglu eu data (neu ddefnyddio'r templed tabl).<br>• Adolygu dysgu blwyddyn 3 a modelu sut i gofnodi eu canlyniadau mewn siart tali gan ddefnyddio'r 'PowerPoint'.<br>• Fel arall, gallai'r plant ddefnyddio meddalwedd fel ffurflenni Google neu Microsoft i gasglu eu data arolwg. Byddai hyn yn coladu'r ymatebion i daenlen yn awtomatig, gan wneud eu casglu data yn fwy effeithlon.<br>• Gweithgaredd ymarferol: Casglu data.<br>• Rhowch gyfle i blant gasglu atebion gan gynifer o blant â phosib o ystod o grwpiau blwyddyn.<br>• Caniatewch amser i aelodau'r grŵp roi adborth ar eu canfyddiadau a dod i gasgliadau am y blas mwyaf poblogaidd gyda'u cwsmeriaid targed. |
| Sleid 6: Adolygu siart bar / her bar siocled | • Adolygych y dysgu ym Mlwyddyn 3 trwy ofyn i'r plant ysgrifennu rhestr o awgrymiadau da ar gyfer llunio siartiau bar. Gellid cwblhau hwn fel gweithgaredd her bar siocled: mae gan bob plentyn ddarn plaen o bapur y mae'n ei blygu'n 6 segment. Maen nhw'n llenwi un o'r segmentau gyda syniad eu hunain ac yna'n cerdded o amgylch yr ystafell i gasglu atebion gan eu cyfoedion nes bod y segmentau sy'n weddill yn llawn a bod ganddyn nhw 6 awgrym gwahanol ar gyfer llunio siartiau bar. |
| Sleid 7-9: Llunio siart bar | • Rhannwch y 'PowerPoint' i arwain y plant trwy bob cam o dynnu siart bar a rhannu'r awgrymiadau gorau.<br>• Modelwch bob cam o sut i lunio siart bar.<br>• Gofynnwch i'r plant lunio siart bar i arddangos eu canlyniadau ymchwil i'r farchnad.<br>• Gallai'r plant hefyd greu eu graffiau gan ddefnyddio meddalwedd graffio ar-lein. |
| Sleid 10: Amser penderfynu! | • Gofynnwch i'r plant ddod i benderfyniad terfynol ynghylch â pha flas fydd eu tarten / diod brecwast.<br>• Esboniwch nad oes raid iddynt ddilyn canlyniadau eu hymchwil marchnata ac yn lle hynny gallant ddewis apelio at farchnad arbenigol a dylunio eu cynnyrch yn benodol i ddiwallu anghenion y grŵp llai hwn o gwsmeriaid.<br>• Gofynnwch i'r plant ysgrifennu dwy frawddeg i egluro'r hyn a ddangosodd eu hymchwil marchnata a'r penderfyniad terfynol y daeth eu grŵp iddo. |



© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| Pwnc | Testun | Amcan |
|---|---|---|
| Mathemateg | Ystadegau | • Dehongli a chyflwyno data arwahanol a pharhaus gan ddefnyddio dulliau graffigol priodol, gan gynnwys siartiau bar a graffiau amser |
| Cyfrifiadureg | | • Dewis, defnyddio a chyfuno amrywiaeth o feddalwedd (gan gynnwys gwasanaethau rhyngrwyd) ar ystod o ddyfeisiau digidol i ddylunio a chreu ystod o raglenni, systemau a chynnwys sy'n cyflawni nodau penodol, gan gynnwys casglu, dadansoddi, gwerthuso a chyflwyno data a gwybodaeth |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.